# Cylchlythyr Eiriolaeth

*Rhifyn Rhif 2 Ionawr 2021*

## *Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd*

## *Newyddion am brosiect HOPE*

### *Diweddariad staffio*

Mae prosiect HOPE wedi gweld ambell i newid sefydliadol yn ddiweddar. Mae Deiniol Jones a ddechreuodd gyda'r prosiect fel Cydlynydd Gwirfoddoli ar gyfer Caerdydd a'r Fro wedi newid ei rôl i Swyddog Datblygu Eiriolaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf Morgannwg. Mae Sara Timothy a ymunodd fel Swyddog Datblygu Eiriolaeth ar gyfer Gwent wedi ymgymryd â rôl Cydlynydd Gwirfoddoli ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Aethpwyd ati i recriwtio er mwyn cwblhau tîm prosiect HOPE a phleser yw adrodd, erbyn hyn, y bydd y ddwy rôl derfynol wedi'u llenwi o 11 Ionawr 2021 ymlaen, ac rydym yn croesawu
Briony a Janet. Mae ein tîm HOPE bellach yn gyflawn ac yn cynnwys pymtheg aelod.

### *Gair gan ein tîm*

Rachael Wellings a Sian Hughes yw ein Swyddogion Prosiect ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych a Gwynedd a Môn, yn y drefn honno. Dyma eu cyfraniad i'n cylchlythyr, yn rhoi manylion eu taith hyd yn hyn drwy Gymru fel aelodau o dîm HOPE.

Maent wedi bod yn gweithio ar lawlyfr i wirfoddolwyr yn ogystal â phecyn hyfforddiant i wirfoddolwyr ac yn edrych ymlaen at eu gweld ar waith.

Mae'r wybodaeth ynddynt yn amrywio o fanylion cyswllt staff HOPE, i wasanaethau gwerthfawr ar draws y wlad, a heb anghofio'r holl bolisïau pwysig! Felly maent yn teimlo'n falch iawn o'u gorffen!

Dros y misoedd diwethaf, mae Rachael a Sian wedi bod yn dod i adnabod gwahanol feysydd o'r sefydliad, partneriaid lleol a gwasanaethau yn eu hardal.  Mae hyn wedi eu helpu i adeiladu perthnasoedd gweithio cryf â chysylltiadau gwerthfawr, gan olygu eu bod wedi gallu recriwtio gwirfoddolwyr a helpu i ledaenu'r neges am beth yw prosiect HOPE a beth ydym yn gobeithio ei gyflawni. Maent wedi dod yn aelodau o fforymau, rhwydweithiau, a grwpiau trafod, felly maent wedi gweld gwerth yn y perthnasoedd hyn, iddynt eu hunain fel swyddogion prosiect a hefyd ar gyfer y cleientiaid a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r sgyrsiau y maent wedi'u cael yn gadael eu hôl ac yn caniatáu i bobl adnabod y prosiect bellach. Maent hefyd yn falch o gael y cyfle i rwydweithio a chydweithio â gwasanaethau eraill i sicrhau na adewir neb yn teimlo'n unig, yn ofni lle i fynd, neu heb gefnogaeth.

Mae Rachael a Sian yn ddiolchgar am y croeso cynnes i'r sefydliad ac yn edrych ymlaen at weithio gyda phawb ohonoch ar brosiect HOPE.

### *Prosiect Eiriolaeth Dementia*

Mae ein prosiect eiriolaeth dementia annibynnol yn galluogi pobl sy'n byw â dementia i gael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnoch a llais yn y penderfyniadau a wneir.

Parhad...

## Prosiect Eiriolaeth Dementia (parhad)

Ei nod arall yw eich cefnogi drwy sefyllfaoedd lle gallech fod yn cael eich cam-drin ac angen dod o hyd i ddatrysiadau diogelu.

Bydd yr eiriolaeth a gynigwn yn annibynnol ar unrhyw wasanaeth arall y mae pobl sy'n byw â dementia yn ei ddefnyddio. Golyga hyn y bydd y person â dementia wrth wraidd y broses benderfynu, a gallwn eu cefnogi a'u cynrychioli heb unrhyw wrthdaro buddiannau.

## Cefndir ein prosiect eiriolaeth dementia

I'r rhan fwyaf o bobl, mae gwneud eu penderfyniadau a'u dewisiadau eu hunain yn fater pwysig iawn. Mae bod yn rhan o brosesau penderfynu, nid yn unig yn ffordd o fynegi hunaniaeth, ond hefyd yn agwedd bwysig ar ryddid personol. Mae'r egwyddor hon wrth wraidd gwasanaethau eiriolaeth i bobl sy'n byw â dementia.

Am ragor o wybodaeth am ein prosiect eiriolaeth dementia, ewch i'n gwefan.

## Arolwg eiriolaeth Cymru

Canfu arolwg o 72 o eiriolwyr proffesiynol yng Nghymru fod pobl ar draws Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n byw mewn cartrefi gofal, wedi gweld eu hawliau dynol yn cael eu torri a pheth o'u mynediad at eiriolaeth, iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ohirio yn ystod y pandemig.

Mae'r adroddiad wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gan wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru ac fe'i cyhoeddwyd i nodi dechrau Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth, yn dilyn arolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn ystod cyfnod clo cyntaf y DU.

Roedd yr eiriolwyr, sydd mewn sefyllfa unigryw i adnabod gwendidau mewn systemau a chamdriniaeth gyffredinol o hawliau, nid yn unig yn bryderus am y cyfyngiadau yn sgil y pandemig ond hefyd am rai o'r rhagfarnau o fewn cymdeithas tuag at bobl fregus.

Dywedodd Natasha Fox, Eiriolaeth Gorllewin Cymru:

"Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad ar draws y sector yn peri syndod ac yn dangos y realiti amlwg o anghydraddoldebau yn gwaethygu i rai o aelodau mwyaf bregus ein cymunedau ledled Cymru. Mae eiriolwyr a'u sefydliadau wedi cydweithio i ddarparu tystiolaeth am effaith pandemig Covid-19 ar bobl yr ydym yn eu cefnogi.!

Canfyddiadau penodol

Canfu'r arolwg nad yw anghenion pobl yn cael eu diwallu na'u hasesu, er nad oes dim newid yn y rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol. Roedd wyth deg pump y cant o eiriolwyr yn teimlo nad oedd hawliau dynol y bobl y maent yn eu cefnogi yn cael eu parchu'n llawn.

Roedd methiant parhaus i weithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, a oedd yn golygu nad oedd neb yn gwrando ar bobl sy'n analluog i wneud penderfyniadau ac roedd eu buddiannau yn cael eu hanwybyddu.

Roedd traean o'r eiriolwyr a holwyd wedi profi gorchmynion *Peidiwch â Cheisio Adfywio Cardio-pwlmonaidd (DNACPRs)* yn cael eu gosod ar y bobl y maent yn eu cefnogi heb roi unrhyw ystyriaeth i deimladau, dymuniadau, gwerthoedd neu gredoau'r person, a heb asesiadau galluedd ffurfiol neu ymgynghoriad â'r teulu.

Adroddodd dros bedwar deg y cant o eiriolwyr fod darparwyr gofal wedi atal ymwelwyr yn gyfan gwbl ac adroddodd bron i draean fod pobl yn cael eu cyfyngu i'w hystafelloedd, gan atal mynediad at ardaloedd awyr agored neu erddi heb unrhyw gyfiawnhad clir.

Dywedodd ein Pennaeth Diogelu, Louise Hughes, a helpodd i gynhyrchu'r adroddiad: "Mae pobl yn wynebu risg llawer uwch o gam-drin oherwydd effaith y cyfyngiadau, cael gwared ar wasanaethau hanfodol ac absenoldeb mesurau diogelu annibynnol yn y lleoedd mae pobl yn byw.

Elfen greiddiol o eiriolaeth yw gwneud iawn am anghydraddoldeb fel bod hawliau pobl yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu parchu fel unigolion y gwrandewir arnynt a'u deall, waeth pwy ydynt neu unrhyw ddiagnosis neu gyflwr iechyd a all fod ganddynt.



Parhad...

Mae gan eiriolaeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth wella iechyd a llesiant pobl na ddylid ei hanwybyddu."

Wrth i ail dôn y pandemig daro ledled y DU, mae'r adroddiad yn galw am flaenoriaethu atgyfnerthu hawliau a gwella cefnogaeth y bobl sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol ar frys. Mae consensws cyhoeddus a gwleidyddol newydd yn ofynnol fel y cefnogir pawb ohonom i fyw bywydau llawn yn ein cymunedau.

Dolen i'r adroddiad llawn isod:

Arolwg eiriolaeth Cymru

## *Dolenni defnyddiol prosiect HOPE*

Cliciwch isod i edrych arnynt:

Prosiect HOPE
Ffurflen atgyfeirio
Trosolwg dwyieithog o brosiect HOPE
Cwestiynau cyffredin prosiect HOPE

## *Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn*

Mae Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn (OPAAL) a Chlymblaid Genedlaethol Cynlluniau Eiriolaeth yn cynnal darn bach o ymchwil i adnabod rhai o'r agweddau mwyaf dadrymusol ar gyfyngiadau'r Coronafeirws ers mis Mawrth 2020 i bobl hŷn. Ymhlith y cwestiynau y bydd yr ymchwil yn eu harchwilio mae:

Faint o bobl (eiriolwyr anffurfiol) a ganfu fod yr argymhelliad cyffredinol y dylai pawb dros 70 oed gloi eu hunain i ffwrdd, wedi'u hatal rhag chwarae unrhyw rôl gadarnhaol wrth ofalu am eraill yn eu cymuned?

Sut wnaethant lwyddo i weithio o amgylch hyn - cyswllt anuniongyrchol etc?

Beth oedd/yw profiadau teuluoedd a ffrindiau a oedd/sydd wedi'u hatal rhag ymweld â'u hanwyliaid am gyfnod amhenodol?

Faint o effaith negyddol mae eu habsenoldeb wedi'i chael ar lesiant meddyliol a chorfforol eu hanwyliaid?

A oedd yna unrhyw ymdrech i roi cymorth ac offer i gartrefi gofal a fyddai'n gwneud ymweld yn ddiogel?

Pa ymdrechion a wnaed gan gartrefi gofal i gynnwys teuluoedd a ffrindiau cymaint â phosib yn ystod y cyfnod clo dros y ffôn, fideo etc?

Ym mha ffordd mae rôl staff gofal sy'n darparu gofal preswyl a gofal yn y cartref wedi newid yn ystod y pandemig?

Beth oedd yr effaith ar bobl o wybod bod eu hanwyliaid yn dioddef marwolaethau unig mewn ysbytai a chartrefi gofal?

Mae'r ymchwilydd yn awyddus i glywed gan ystod o bobl ar draws lledaeniad daearyddol. Byddai'r rhain yn cynnwys rheolwyr cartrefi gofal; perthnasau; gweithwyr bugeiliol; gwirfoddolwyr cyfeillio; gweithwyr gwallt a harddwch, eiriolwyr anffurfiol a phobl sy'n byw mewn cartref gofal neu lety â chymorth.

Os hoffech gymryd rhan yn yr ymchwil, cysylltwch â ni ar advocacynatcoalition@gmail.com

### *Diweddariad Rhwydweithiau Eiriolaeth*

Mae ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol wedi'u datblygu ledled Cymru i ategu at waith y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion yng Nghymru. Mae'r rhwydweithiau yn gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol, i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol yn y rhanbarth, cyfleoedd comisiynu posibl a allai godi yn y dyfodol ac i gael gofod i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

Isod ceir manylion y rownd nesaf o gyfarfodydd rhwydweithiau rhanbarthol a fydd yn digwydd dros Zoom neu Teams:

National Network 21/1/21 10am - 12pm
Cwm Taf Morgannwg 25/1/21 2pm – 3.30pm
Gwent 11/2/21 2pm - 3.30pm
Cardiff & Vale 15.2.21 9am – 10.30am
3 Counties 9/3/21 10am – 12pm
Powys 17/3/21 10am - 11.30am
Neath PT & Swansea - 18/3/21 10am–12pm
North Wales TBC

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw un o'r rhwydweithiau eiriolaeth, cysylltwch â Marc Forster ar 07932 989656 neu marc.forster@agecymru.org.uk



Parhad...

## *Cyngor Age Cymru*

Gall llinell gyngor Age Cymru gynnig cyngor diduedd, rhad ac am ddim ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod eisiau cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal rhywun annwyl iddynt? Neu efallai eu bod am wybod a ydynt yn gymwys am Gredyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Cyngor Age Cymru gynorthwyo gyda'r holl faterion hyn, a mwy - ffoniwch ni heddiw ar

**0300 303 44 98**

**Cysylltwch â ni…**

- **I danysgrifio i'r e-fwletin neu gylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth yr hoffech chi ei weld yn yr e-fwletin neu gylchlythyr**

**E-bost:** sue.vaarkamp@agecymru.org.uk

T: 01352 706228

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Nid barn Age Cymru yw'r rhai a gyflwynir yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd.**

**Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau yn ddidwyll, ond nid yw cynhyrchion neu wasanaethau y cyfeirir atynt drwy hynny'n cael eu cymeradwyo na'u hargymell gan Age Cymru.**

**Age Cymru,**
**Llawr Gwaelod,**
**Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors,**
**Caerdydd CF24 5TD.**

**Ff: 029 2043 1555**

E: enquiries@agecymru.org.uk

www.agecymru.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 1128436 Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2021

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

age connects wales.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government